# AI'R BYWYD HWN YW'R CYFAN SYDD?

*Nodyn i'r siaradwr:*
I lawer o bobl 'does 'na ddim ystyr i'w bywydau. Mae angen i'r gynulleidfa weld fod ein gobaith ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys yr atgyfodiad, yn cadarnhau ystyr a phwrpas ein bywydau. Mae'r gobaith hwn yn sicr. Gallwn ganlyn gwir bwrpas yn ein bywyd 'nawr, yn meithrin y gobaith hwn ac osgoi agwedd pa ots am yfory. Dylid anelu rhan ola'r anerchiad yn arbennig at y rhai newydd a'r cyhoedd

**RHWYSTREDIGAETHAU'R BYWYD HWN YN DRYSU LLAWER I CHWILIO AM YSTYR** (6 mun.)

Mae'r hen a'r ifanc yn aml yn amau amcanion oesol dynoliaeth a'u gwrthod nhw

Mae *cyfoeth* wedi creu pryderon, nid yw bob amser yn bodloni (Preg 2:4-11; *w*77 59; *w*88 8/15 18; *w*86 6/15 3, 10)

Rhywbeth dros dro yw *enwogrwydd*; buan yr anghofir pobl (Preg 2:15, 16; *w*77 78-9; *w*87 8/15 10-11)

Dim ond dros dro mae *grym* yn para; gall person gael ei ddisodli gan wrthwynebydd; angau fydd ei ddiwedd sicr (*w*76 626)

Cyflym y gwywa *harddwch* hefyd (*g*86 1/8 14-15)

'Dyw cyflawniadau bywyd ddim yn llawer o ystyried amser tragwyddol

Buan mae dyn yn darfod ac anghofir amdano (Salm 103:15, 16)

Agwedd realistig yw hyn nid un sinigaidd

Os mai dim ond y bywyd hwn sydd, 'dydyn ni ddim hyd yn oed yn ddiferyn yn ffrwd amser nac yn llychyn ar glorian tragwyddoldeb (*w*73 325-30; *g*87 1/22 12)

**SUT MAE GOBAITH YR ATGYFODIAD YN EIN HELPU NI** (15 mun.)

Mae pobl wedi glynu'n hir wrth obaith bywyd y tu draw i angau (*g*88 7/8 4-7)

Mae llawer yn credu athrawiaethau seiliedig ar anfarwoldeb yr enaid (*rs* 379-80; *sh* 52-6)

Mae rhai yn credu fod y da yn mynd i'r nefoedd; cred eraill yn nhrawsfudo eneidiau, Nirfana (*gh* 103-5; *w*90 5/1 18-19)

Mae'r Beibl yn chwalu'r holl gau ddysgeidiaethau hyn (Preg 3:19, 20; 9:5, 10; *w*90 5/1 19-23)

Felly, ai'r bywyd hwn yw'r cyfan sydd? Onid oes 'na obaith?

Mae'r Beibl yn ein sicrhau ni y bydd Duw yn atgyfodi llawer o bobl (Actau 24:15; *g*78 11/8 3-5; *ts* 166-75; *lp* 116-18)

Nid gobaith dychmygol, disail yw hwn

Bydd yr atgyfodiad a addawodd Iesu yn digwydd yn nhrefn ei Deyrnas (In 5:28, 29)

Dangosodd y gellir atgyfodi bodau dynol (Lc 7:11-17; *w*86 12/15 8-9)

Ond beth am berson sydd wedi marw ers amser hir, sydd â'i gorff wedi dadfeilio?

Gall Duw ail-greu'r person hwnnw; gan adfer corff a meddyliau addas (*vi* 28)

Mae'r DNA mewn cell unigol yn cynnwys cyfarwyddiadau ar ffurf côd ar gyfer biliynau o gelloedd (*ce* 48)

Mae gan Greawdwr DNA y gallu i gofio patrwm bywyd person os yw E'n dewis gwneud hynny

'Does dim rhaid mai'r bywyd hwn yw'r cyfan sydd (*g*80 5/22 5-9; *g*67 6/22 6-7)

Mae'r atgyfodiad yn gyfrwng cyflawni bwriad Duw

Bwriada Duw i fodau dynol ufudd gael bywyd tragwyddol mewn perffeithrwydd

Byddai ystyr i fywyd o'r fath (*w*73 326)

'Fyddai e ddim yn cael ei dorri'n fyr, na'i rwystro gan angau (*g*70 10/8 14-17; *w*84 8/15 4; *g*90 4/22 9)

Mae'n bosib' dadwneud difrod marwolaeth Adamaidd

Gall yr atgyfodiad dynnu colyn angau (1Cor 15:55)

Mae e'n helpu person i ddeall un peth pwysig sy'n rhoi ystyr i fywyd (Preg 12:13, 14; *w*78 1/1 31)

**GALL EIN BYWYD HEDDIW FOD YN ARBENNIG O YSTYRLON** (5 mun.)

'Rydym yn byw mewn cyfnod pan all pobl ddianc am byth rhag gorfod marw

'Rydym 'nawr yn byw yng nghyfnod 'diwedd y byd' (Mth 24:3; *g*88 4/8 7 [bocs], 11 [bocs])

Gallwn gael mynediad i fywyd diddiwedd (*ts* 151-65; *w*90 5/1 28)

Ynglŷn â'r atgyfodiad, y cwestiwn sy'n codi ydi, 'Fydd Duw yn dewis cofio unigolyn a'i atgyfodi e?

Y cwestiwn i bob un ohonom ni ydi, 'Fydd Duw yn fy nghael *i* yn deilwng i'm diogelu ar gyfer y byd newydd dan Deyrnas Crist?

Os mai bydd ydi'r ateb, yna *nid* y bywyd hwn, hyd yn oed 'nawr, ydi'r cyfan sydd

**MAE TYSTION JEHOFAH YN GWYBOD FOD GWIR BWRPAS I FYWYD** (9 mun.)

Maen' nhw'n gwybod nad y bywyd hwn yw'r cyfan sydd; mae hyder ganddyn' nhw yn y byd newydd

Nid ydynt yn ymbalfalu i ganfod ystyr bywyd (*g*80 10/22 6-11)

Maen' nhw wedi canfod mai dilyn cyfarwyddyd Duw yw'r ffordd orau i fyw

Maen' nhw'n cymhwyso Gair Duw yn eu bywydau eu hunain; y canlyniad ydi teuluoedd hapus

Mae unigolyn sy'n dod yn Dyst yn rhan o gynulleidfa o bobl gariadus

Er nad yw'r Tystion yn byw dim ond er mwyn y presennol, maen' nhw'n mwynhau bywyd llawn (*w*73 401-6)

Mae cariad at Jehofah yn cymell Tystion i ufuddhau iddo er gwaethaf gwrthwynebiad (2Tim 3:12)

Disgrifiodd y gohebydd Milo Komínek yn y llyfr *Even Under the Sky There Is Hell* (1971) uniondeb y Tystion yn y gwersylloedd gwaith Comiwnyddol yn Tsiecoslofacia yn ystod 1951: "Mi gofiaf am byth gydag edmygedd a chydnabyddiaeth y Jehofiaid, bechgyn ifanc gan fwyaf, oedd wedi gwrthod dyletswydd filitaraidd a chael eu condemnio am hynny. Hyd yn oed yma cadwasant eu ffydd, sef bod gweithio i hyrwyddo rhyfel yn bechod, ac fe wrthodasant weithio yn y mwynfeydd wraniwm. Defnyddiodd swyddogion y gwersylloedd bopeth oedd ganddynt i'w gorfodi nhw i wneud y gwaith, ond ofer oedd popeth a gynigiasant; byddai'n well gan y rhan fwyaf ohonyn' nhw farw na gweithio i adeiladu'r bygythiad atomig Sofietaidd. Gwnaeth pennaeth y gwersyll Palacek iddyn' nhw sefyll am ddyddiau o flaen y pencadlys mewn lluwchfeydd eira, a thymheredd y tywydd gaeafol yn [-]30° C. [-22° F.], gan dywallt dŵr arnyn nhw nes eu bod nhw wedi rhewi. 'Roedd hi'n olygfa erchyll, fydd fel hunllef imi nes byddaf farw" (*w*74 373)

Mae credu yn yr atgyfodiad yn cryfhau dyn i fod yn ffyddlon er gwaethaf perygl marwolaeth (2Cor 1:8, 9; Heb 12:1-3)

Mae'r Tystion yn gwybod nad y bywyd hwn yw'r cyfan sydd

**ANGEN MEITHRIN Y SAFBWYNT CYWIR** (10 mun.)

Dylai'r rhai sy'n gwybod nad y bywyd hwn yw'r cyfan sydd adlewyrchu'r argyhoeddiad hwn yn eu cymdeithasu a'u gweithgareddau

Yn y ganrif gyntaf C.C., credai'r Cristionogion yn yr atgyfodiad

'Doedden nhw ddim yn derbyn y ddysgeidiaeth baganaidd am anfarwoldeb yr enaid neu'r athroniaeth byw heb ots am yfory

Ond fe ddechreuodd rhai wadu gwirionedd yr atgyfodiad; felly, fe fabwysiadodd y rhain yr agwedd mai'r bywyd hwn yw'r cyfan sydd (1Cor 15:12, 32b; *w*82 4/1 17-18)

Gwrthbrofodd Paul yr agwedd hon yn gadarn (1Cor 15:3-8, 13-19; *w*81 12/15 18; *w*84 10/1 30-1)

Osgowch gymdeithasu â'r rhai sy'n gwadu'r atgyfodiad neu sydd yn meddwl mai'r bywyd hwn yw'r cyfan sydd

Byddai pobl o'r fath yn eich cymell i gyfaddawdu eich ffydd (1Cor 15:33; *w*88 6/15 18-19)

Mi fydden' nhw'n eich annog chi i fyw dim ond er mwyn y presennol (*ts* 12-15)

'Dyw Tystion Jehofah ddim yn byw dim ond er mwyn y presennol

Maen' nhw'n rhagweld dyfodol gogoneddus mewn byd newydd sydd yn awr yn agos

'Rydym yn eich gwahodd chi i fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd yn Neuadd y Deyrnas ac yna bod yn gymwys i gael rhan yn ein pregethu cyhoeddus

Dyma'r peth mwyaf gwerth chweil y gall dyn ei wneud yn awr; nid yw yn ofer (1Cor 15:58)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)